

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**  
**Polisi Gwisg Ysgol /School Uniform Policy**  
(scroll down for English version)

<b>Dyddiad Cymeradwyo/ Approval Date:</b>	<b>Gorfennaf 2023</b>
<b>Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Chair of Governors' Signature:</b>	

### **Cyflwyniad**

Ein polisi yw y dylai pob plentyn wisgo gwisg ysgol pan yw'n mynychu'r ysgol, neu pan fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan yr ysgol tu allan i oriau ysgol arferol. Rydym yn darparu rhestr lawn o'r eitemau sydd eu hangen ar gyfer y wisg ysgol ym mhrospectws ein hysgol.

### **Nodau ac Amcanion**

Mae ein polisi yn seiliedig ar y syniad o fod gwisg ysgol:

1. Yn hyrwyddo ymdeimlad o falchder yn yr ysgol;
2. Yn magu ymdeimlad o gymuned a pherthyn;
3. Yn ymarferol a thaclus;
4. Yn cysylltu'r plant â'r ysgol;
5. Ddim yn gwrthdynnu sylw yn y dosbarth (fel y gallai dillad ffasiwn fod);
6. Yn gwneud plant i deimlo'n gyfartal a'u cyfoedion yn nhermau ymddangosiad;
7. Yn cael ei gydnabod fel rhywbeth addas ac sy'n werth da am arian gan y rhan fwyaf o rieni a gofalwr;
8. Wedi cael ei ddylunio gan roi ystyriaeth i iechyd a diogelwch.

### **Gwisg**

- Sgert llwyd/ Trowsus hir llwyd/ Trowsus byr llwyd
- Crys Polo glas golau yr ysgol
- Sanau pen-glin gwyn /Sanau llwyd
- Crys chwys navy yr ysgol
- Esgidiau du

### **Gwisg Ymarfer Corff/Chwaraeon**

- Crys T Melin Gruffydd / Crys T llysoedd / Crys T plaen
- Gwaelodion (shorts neu dracwisg) plaen
- Esgidiau 'trainers'.

## **Gemwaith**

Ar sail iechyd a diogelwch, dydyn ni ddim yn caniatáu plant i wisgo gemwaith yn ein hysgol. Fodd bynnag, ceir eithriad i'r rheol yma ar gyfer stydiau clustiau sydd wedi eu tyllu. Gofynnwn i blant naill ai dynnu'r gwrthrychau yma yn ystod gwersi addysg gorfforol a chwaraeon, neu i'w gorchuddio â phlaster.

Mae'r ysgol yn dilyn y Côd Eurgylch sy'n cael ei ddilyn gan weddill ysgolion y Clwstwr.

## **Esgidiau**

Mae'r ysgol yn awyddus i bob plentyn dyfu yn oedolion iach. Credwn ei fod yn beryglus i blant wisgo 'sgidiau a sodlau uchel neu 'blatfform' yn yr ysgol, felly ni chaniateir hyn.

## **Rôl Rhieni a Gofalwyr**

Gofynnwn i'r holl rieni a gofalwyr sydd yn danfon eu plant i'n hysgol gefnogi'r polisi gwisg ysgol. Credwn fod gan rieni a gofalwyr ddyletswydd i ddanfon eu plant i'r ysgol wedi eu gwisgo'n gywir ac yn barod am eu gwaith ysgol dyddiol. Dylai rhieni a gofalwyr sicrhau fod gan eu plentyn y wisg ysgol gywir, a'i fod yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r ysgol yn croesawu plant o bob cefndir a chymunedau ffydd. Os oes yna resymau difrifol, e.e. Gwrthwynebiad crefyddol, pan fydd rhieni a gofalwyr yn dymuno i'w plant wisgo dillad sydd yn wahanol i'r wisg ysgol, bydd yr ysgol yn dangos cydymdeimlad wrth gymryd golwg ar y fath geisiadau. Mewn modd tebyg, dylai eitem o wisg ysgol sydd yn achosi problemau i ddisgybl a chanddo anabledau, yna gwahoddir rhieni a gofalwyr i dynnu sylw'r Pennaeth at hyn. Ni fydd yr ysgol yn trin disgyblion ag anabledau yn anffafriol.

## **Swyddogaeth y Llywodraethwyr**

Mae'r corff Llywodraethwyr yn cefnogi'r Pennaeth wrth weithredu'r polisi gwisg ysgol, ac yn cysylltu â'r Pennaeth i sicrhau fod y polisi yn cael ei weithredu'n deg a chyda sensitifrwydd.

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw hi i sicrhau fod y wisg ysgol yn cwrdd â'r holl reoliadau cenedlaethol sydd yn ymwneud â chyfleoedd cyfartal, a bod ein polisi gwisg ysgol yn gyson gyda'n polisi ar gyfleoedd cyfartal.

Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau fod y polisi ynglŷn â gwisg ysgol yn helpu plant i wisgo'n synhwyrol, mewn dillad sydd yn treulio'n dda, yn ddiogel ac yn ymarferol.

## **Monitro ac Adolygu**

Wrth fonitro'n polisi hwn bydd y corff llywodraethol:

Yn ystyried unrhyw geisiadau gan rieni neu ofalwyr i blant gael addasiad arbennig gan y Pennaeth

Yn gofyn i'r Pennaeth adrodd i'r llywodraethwyr ynglŷn â'r ffordd mae'r polisi yn cael ei weithredu

Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu gan y corff llywodraethol yn ôl y galw.